Adeiladu bocs compost

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn eich helpu i wneud bocs compost pren 75 × 75 × 75cm y gellwch ei symud o gwmpas. Mae'r bocs wedi'i wneud o nifer o rannau sy'n union yr un fath ac sy'n cyd-gloi i'w gilydd er mwyn i chi eu gosod ar ben ei gilydd. Mae'n bosibl newid y bocs yn ôl beth ydych chi ei angen a beth sydd gennych i'w adeiladu. Mae pren sydd wedi'i ddefnyddio o'r blaen, ar gyfer llawr neu baledau (*pallets*) er enghraifft, yn berffaith.

Wrth i'r compost bydru a mynd yn llai, gellwch dynnu rhannau uchaf y bocs a'u defnyddio i ddechrau bocs compost newydd .

Diagram 1

Cadwch y glaw allan drwy ddefnyddio caead pren neu ddarn sgwâr o hen garped neu bolythen .

Defnyddiau ac Offer

I wneud ***un*** rhan o'r bocs, byddwch angen :

- 2 ddarn o bren 75cm, gyda lled o 7.5cm***** a thrwch o 1.5cm o leiaf.
  2 ddarn o bren 72cm, gyda lled o 7.5cm***** a thrwch o 1.5cm o leiaf.



Diagram 2

- 4 bloc cornel pren, 5cm × 5cm x 5.5cm.
- 20 o sgriwiau 3.6cm, maint rhif 8.
- 1 sgriwdreifar, 1 dril ac 1 llif.

Cyfanswm y deunydd ar gyfer 10 rhan

- 30m o bren 7.5cm × 1.5cm.
- 2.2m o bren 5cm × 5cm.
- 220 o sgriwiau 3.6cm rhif 8.

***** Gellwch ddefnyddio darnau o bren sydd ychydig yn lletach neu'n gulach, cyn belled â'ch bod yn addasu maint y blociau cornel i ffitio. Does dim rhaid i chi gadw'r un lled i bob rhan os yw'r pren sydd ar gael yn amrywio. **Rhaid i'r hyd a'r trwch fod yn gywir â'i gilydd**

Adeiladu'r bocs

1. O'r pren 7.5cm x 1.5cm, torrwch 2 ddarn o bren, y ddau yn 75cm o hyd .

2. O'r pren 7.5cm x 1.5cm, torrwch ddau ddarn arall, y tro hwn yn 72cm o hyd .

3. Torrwch 4 darn 5.5cm yr un o'r pren 5cm × 5cm. Y rhain fydd yn gwneud y blociau cornel .

4. Gafaelwch yn un o'r ddau bren **72cm** a'i osod yn ei le gyda bloc cornel ar bob pen. Dylai pen y pren fod yn cyfwynebu'r blociau (*flush*). Gosodwch y blociau fel eu bod yn estyn 2cm y tu hwnt i ochr y pren, fel y gwelwch yn niagram 3



Diagram 3

5. Daliwch y pren yn ei le ar y blociau. Driliwch 3 thwll drwy'r pren ac i mewn i'r bloc oddi tano. Rhowch y 3 sgriw ynddynt i'w hoelio i'w lle.

6. Gwnewch gamau 4 a 5 unwaith eto ar y pen arall.

7. Nawr gwnewch gamau 4-6 eto gyda'r ail ddarn byr o bren **72cm**. Bydd gennych yn awr ddwy ochr i'r bocs bach gyda blociau cornel wedi'u hoelio wrthynt.

8. Rhowch y ddau ddarn pren byr yma i sefyll, gan adael tua 75cm rhyngddynt. Rhowch y rhannau o'r blociau cornel sy'n ymwthio allan yn bellach i ffwrdd oddi wrthoch. Gosodwch bren **75cm** ar ben y blociau i lunio trydedd ochr. Gwnewch yn siwr fod bob pen i'r darn **75cm** yn gyfwyneb ag ochrau allanol y darnau pren **72cm**.



Diagram 4

9. Driliwch a hoeliwch bob pen i'r pren **75cm** yr un fath ag yng ngham 5. Defnyddiwch dim ond 2 sgriw y tro hwn.

10. Trowch y cwbl dro-sodd fel bo'r rhan sydd heb ei orffen yn wynebu ar i fyny. Gosodwch yr ail ddarn **75cm** rhwng y preniau 72cm fel o'r blaen. Gosodwch hwn yn ei le yn sgwâr a driliwch y sgriwiau i mewn fel yng ngham 9.



Diagram 5

Rydych yn awr wedi gorffen rhan gyntaf y bocs compost. Daliwch ati i wneud rhagor o rannau nes eich bod wedi cwblhau faint sydd eu hangen.

Beth allaf ei droi'n gompost?

Ysgogwyr, pydru'n gyflym

Dail cwmffri
Porfa wedi'i dorri
Carthion ieir

Pethau eraill y gellwch eu troi'n gompost

Lludw coed tân
Cardbord
Tyweli, bagiau a deunydd lapio papur, wedi'u crychu
Tiwbiau cardbord a bocsys dal wyau

Pethau sy'n pydru'n arafach

Tameidiau a gwastraff ffrwythau a llysiau
Bagiau te a gwaddodion coffi
Hen wellt a gwair
Gweddillion planhigion llysiau
Tail / dom o wellt
Hen flodau a phlanhigion gwely blodau
Toriadau o shetin/gwrych ifanc
Darnau a brigdoriadau meddal
Chwyn parhaol (dim gwreiddiau)
Deunydd gwely jerbil, bochdew ac anifeiliaid llysfwytaol eraill
Papur newydd



Gwell eu hosgoi

Cig a physgod
Gwreiddiau chwyn parhaol (*perennial*)

PEIDIWCH â'u rhoi yn y compost

Lludw glo a golosg
Carthion cŵn a chathod
Cewynnau/clytiau taflu i ffwrdd
Cylchgronau
sglein

Pethau sy'n pydru'n araf iawn

Dail yr hydref
Darnau gwydn wedi'u torri o'r shetin/ gwrych
Darnau a brigdoriadau llawn coed
Llwch lli a siafins

Gwneud Compost

Canllaw i fyfyrwyr ar sut i wneud eich compost a'ch bocs compost eich hun

garden organic

Garden Organic *for* Schools

www.schoolsorganic.net

cyfieithwyd gan Ganolfan Organig Cymru
www.organic.aber.ac.uk/cymraeg